| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **14 Ebrill 2007** |
| **Teitl :** | **Aelodaeth y Pwyllgor Safonau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |

**Cefndir**

1. Bydd tymor swydd rhai aelodau o'r Pwyllgor yn dod i ben yn fuan. Bydd y Dr Tudor Ellis yn gorffen ei ail dymor fel Aelod Pwyllgor Cymunedol gyda'r etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai tra bydd tymhorau cyntaf Mr John Pollard a Mr Malcolm Jones hefyd yn dod i ben ym mis Mai.  Yn ogystal â hyn bydd y Cynghorydd Wyn Miles Meredith yn cwblhau ei ail dymor a'r cynghorwyr Glyn Owen a Morgan Vaughan yn cwblhau eu tymor cyntaf.

2. Mae'r rheoliadau yn darparu na all Aelod Pwyllgor Cymunedol wasanaethu am fwy na dau dymor a bydd rhaid felly penodi aelod newydd.  Mae'r rheoliadau hefyd yn darparu y dylai'r Cyngor, cyn gwneud hynny, ymgynghori â'r cynghorau cymuned a thref o fewn ei ardal ac unrhyw gymdeithasau cynghorau cymuned sy'n gweithredu o fewn yr ardal.

3. Mae'n bosib penodi Mr Pollard a Mr Jones am un cyfnod arall dilynol ond ni fyddai'n rhaid i'r Cyngor fynd drwy'r broses statudol ar gyfer penodi aelodau annibynnol o'r newydd er mwyn gwneud hynny.

4. Yn dilyn yr etholiadau bydd angen penodi aelodau etholedig o'r newydd.  Ni fydd yn bosib penodi Cyng. Meredith am dymor pellach gan ei fod eisoes wedi gwasanaethu am ddau dymor.  Byddai'n bosib ail benodi'r cynghorwyr Owen a Vaughan.

**Argymhelliad**

5. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y ffordd ymlaen ar gyfer penodi aelodau.